OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 2365 (Cy.193)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *2 Medi 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *3 Medi 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *28 Medi 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 130, 131, 132 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2009 a deuant i rym ar 28 Medi 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007(**2**); a

(b) ystyr "y Rheoliadau Cymhorthdal Incwm" ("*the Income Suport Regulations*") yw Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987(**3**).

**Addasu'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm yn Atodlen 1 i'r prif Reoliadau**

**2.**—(1) Mae Atodlen 1 i'r prif Reoliadau (Addasu Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987) wedi'i diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Nhabl A, yn yr addasiadau sy'n ymwneud â rheoliad 66A o'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (trin benthyciadau i fyfyrwyr) yn y cofnod cyntaf, yn lle "Guide to Student Support issued by the Student Awards Agency for Scotland 2007–2008" rhodder "Student Support Information Guide 2009–2010 issued by the Student Awards Agency for Scotland(**4**)".

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 2007/1104 (Cy.116); O.S. 2008/1480 (Cy.153) yw'r offeryn diwygio perthnasol.
(**3**) O.S. 1987/1967.
(**4**) Mae'r arweiniad hwn ar gael ar wefan Asiantaeth Dyfarniadau Myfyrwyr yr Alban yn www.saas.gov.uk.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

2 Medi 2009

## EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 ("y prif Reoliadau").

Mae'r prif Reoliadau yn gwneud darpariaeth fel bod pobl sydd naill ai'n cael budd-daliadau penodol oddi wrth y wladwriaeth neu sydd ar incwm isel yn cael peidio â thalu taliadau penodol neu gael ad-daliad ohonynt, a'r taliadau hynny fel arall yn daladwy o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("taliadau GIG") a chael taliad am dreuliau teithio a dynnwyd wrth gael gwasanaethau GIG penodol ("treuliau teithio GIG").

Wrth gyfrifo adnoddau a gofynion person o dan y prif Reoliadau er mwyn canfod a yw'n cael hawlio hawl i beidio â thalu taliadau GIG ac i gael taliad am dreuliau teithio GIG, defnyddir fersiwn addasedig o Reoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987 ("y Rheoliadau Cymhorthdal Incwm").

Mae rheoliad 2 yn diweddaru'r cyfeiriad at y cyhoeddiad sy'n disgrifio benthyciadau ychwanegol a delir o dan Reoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Yr Alban) 2007. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu diystyru wrth gyfrifo incwm benthyciad i fyfyriwr pan fo hawl person i gael taliad am dreuliau teithio GIG ac i beidio â thalu taliadau GIG yn cael ei chadarnhau o dan y prif Reoliadau.